



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2005 Rhif 2912 (Cy.209)**

**2005 No. 2912 (W.209)**

**ADDYSG, CYMRU**

**EDUCATION, WALES**

**Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir  
Newydd (Cymru) 2005**

**The New Maintained Schools  
(Wales) Regulations 2005**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â llywodraethu ysgolion a gynhelir newydd yng Nghymru.

These Regulations relate to the government of new maintained schools in Wales.

Mae Rhan 1 yn darparu i'r Rheoliadau ddod i rym, yn nodi'r Rheoliadau hynny sydd i'w dirymu neu i'w diwygio ac yn cynnwys darpariaethau ar gyfer dehongli. Mae'n ymdrin hefyd â chyflwyno hysbysiadau.

Part 1 provides for the Regulations to come into force, sets out those Regulations that are to be revoked or amended and contains interpretation provisions. It also deals with the service of notices.

Mae Rhan 2 yn ymwneud â gwneud trefniadau ar gyfer cyrff llywodraethu dros dro. Mae rheoliad 5 yn caniatáu i drefniadau gael eu gwneud gan rag-weld y caiff cynigion eu cymeradwyo ac mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau bod hyrwyddwyr yn cytuno â threfniadau sy'n ymwneud â llywodraethwyr sefydledig dros dro.

Part 2 relates to the making of arrangements for temporary governing bodies. Regulation 5 enables arrangements to be made in anticipation that proposals will be approved and regulation 6 requires the agreement of promoters to arrangements relating to temporary foundation governors.

Mae Rhan 3 yn disgrifio'r amrywiol categorïau o lywodraethwyr dros dro. Mae rheoliad 9 yn ymdrin â phenodi rhiant-lywodraethwyr dros dro gan naill ai'r awdurdod addysg lleol neu hyrwyddwyr ysgol newydd.

Part 3 describes the various categories of temporary governor. Regulation 9 deals with the appointment of temporary parent governors by either the local education authority or a new school's promoters.

Mae rheoliad 10 yn ymdrin â staff-lywodraethwyr dros dro, sy'n cynnwys staff nad ydynt yn addysgu yn unig. Mae rheoliad 11 yn ymwneud ag athro-lywodraethwyr. Mae'r pennaeth yn llywodraethwr dros dro yn rhinwedd ei swydd ond caiff ymddiswyddo o'i swydd fel llywodraethwr dros dro (neu dynnu ei ymddiswyddiad yn ôl) ar unrhyw adeg.

Regulation 10 deals with temporary staff governors, which includes non-teaching staff only. Regulation 11 deals with teacher governors. The head teacher is a temporary governor by virtue of his or her position but may resign his or her temporary governorship (or withdraw his or her resignation) at any time.

Mae rheoliad 12 yn ymdrin â phenodi llywodraethwyr AALl dros dro.

Regulation 12 deals with the appointment of temporary LEA governors.

Mae rheoliadau 13 a 14 yn gymwys i lywodraethwyr cymunedol dros dro ac i lywodraethwyr cymunedol ychwanegol dros dro.

Regulations 13 and 14 apply to temporary community governors and additional temporary community governors.

Mae rheoliad 15 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â phenodi llywodraethwyr sefydledig dros dro, gan gynnwys llywodraethwyr dros dro *ex officio* ac mae rheoliad 16 yn ymdrin ag enwebu a phenodi llywodraethwyr partneriaeth dros dro. Mae rheoliad 17 yn gymwys i lywodraethwyr cynrychioliadol dros dro mewn ysgolion arbennig cymunedol. Mae rheoliad 18 yn gwneud darpariaeth ar gyfer noddwrlywodraethwyr dros dro, y gellir dewis eu penodi neu beidio.

Mae rheoliad 19 yn pennu'r profiad sy'n angenrheidiol i lywodraethwyr dros dro ac mae rheoliad 20 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chyd-benodi.

Mae Rhan 4 yn ymdrin â chyfansoddiad cyrff llywodraethu dros dro drwy gymhwyso rheoliadau 13 i 20 o Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 ("y Rheoliadau Llywodraethu") at gyrrff llywodraethu dros dro gyda rhai addasiadau.

Mae Rhan 5 yn ymdrin â deiliadaeth swyddi a chymwysterau llywodraethwyr dros dro. Mae rheoliad 22 yn nodi sut y gall llywodraethwr dros dro ymddiswyddo ac mae rheoliadau 23 a 24 yn ymdrin â diswyddo llywodraethwyr dros dro.

Mae rheoliad 25 yn gwneud darpariaeth ar gyfer yr amgylchiadau lle mae llywodraethwr dros dro yn cael ei anghymhwyso rhag cael ei benodi'n llywodraethwr dros dro neu rhag parhau'n llywodraethwr dros dro drwy gymhwyso Atodlen 5 i'r Rheoliadau Llywodraethu, gydag addasiadau.

Mae Rhan 5 hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'r treuliau sy'n codi mewn perthynas â chyrff llywodraethu dros dro a darparu gwybodaeth ar gyfer llywodraethwyr dros dro.

Mae Rhan 6 yn ymdrin â rhedeg ysgolion newydd sydd â chyrff llywodraethu dros dro, gan roi pwerau a dyletswyddau cyffredinol i gyrff llywodraethu dros dro. Hefyd, mae rheoliad 33 yn darparu ar gyfer cyflawni dogfennau gan y corff llywodraethu dros dro.

Mae rheoliad 33 yn ei gwneud yn ofynnol i'r pennaeth ymgynghori â'r corff llywodraethu dros dro a'r awdurdod addysg lleol ynghylch y cwricwlwm ac mae rheoliad 34 yn darparu ar gyfer penderfynu ar ddyddiadau tymhorau a gwyliau'r ysgol ac amserau sesiynau'r ysgol. Mae rheoliad 35 yn ymdrin â'r adroddiadau a'r wybodaeth sydd i'w rhoi i AALl ac mae rheoliad 36 yn ymwneud ag ymgynghori gan AALl mewn perthynas â gwariant os nad oes gan gyrff llywodraethu dros dro gyllidebau dirprwyedig.

Mae Rhan 7 yn ymdrin â phenodi, swyddogaethau a diswyddo swyddogion, cyfarfodydd a thrafodion cyrff llywodraethu dros dro, pwyllgorau cyrff llywodraethu dros dro a gwrthdrawiadau buddiannau. Mae darpariaethau perthnasol y Rheoliadau Llywodraethu yn cael eu cymhwyso at ysgolion newydd gydag addasiadau.

Regulation 15 makes provision as to the appointment of temporary foundation governors, including *ex officio* temporary governors and regulation 16 deals with the nomination and appointment of temporary partnership governors. Regulation 17 applies to temporary representative governors in community special schools. Regulation 18 makes provision for temporary sponsor governors, the appointment of whom is optional.

Regulation 19 specifies the experience required of temporary governors and regulation 20 makes provision in respect of joint appointments.

Part 4 deals with the composition of temporary governing bodies by applying regulations 13 to 20 of the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005 ("the Government Regulations") to temporary governing bodies with some modifications.

Part 5 deals with the tenure of office and qualifications of temporary governors. Regulation 22 sets out how a temporary governor can resign and regulations 23 and 24 deal with the removal of temporary governors.

Regulation 25 makes provision for the circumstances in which a temporary governor is disqualified from being appointed or continuing in office as a temporary governor by applying Schedule 5 of the Government Regulations, with modifications.

Part 5 also contains provisions relating to expenses incurred in relation to temporary governing bodies and the provision of information to temporary governors.

Part 6 deals with the conduct of new schools with temporary governing bodies and gives temporary governing bodies general powers and duties. In addition, regulation 32 provides for the execution of documents by the temporary governing body.

Regulation 33 requires the head teacher to consult the temporary governing body and the local education authority regarding the curriculum and regulation 34 provides for the determination of dates for the school term and holidays and the times of school sessions. Regulation 35 deals with reports and information to be provided to LEAs and regulation 36 for consultation by LEAs in relation to expenditure where temporary governing bodies do not have delegated budgets.

Part 7 deals with the appointment, functions and removal of officers, meetings and proceedings of temporary governing bodies, committees of temporary governing bodies and conflicts of interest. The relevant provisions of the Government Regulations are applied to new schools with modifications.

Mae Rhan 8 yn ymdrin â'r cyfnod trosiannol rhwng y corff llywodraethu dros dro a'r corff llywodraethu parhaol sy'n cael ei gyfansoddi o dan offeryn llywodraethu. Rhaid i'r awdurdod addysg lleol sicrhau bod offeryn llywodraethu yn cael ei wneud cyn dyddiad agor yr ysgol.

Yr awdurdod addysg lleol sy'n pennu'r dyddiad y caiff y corff llywodraethu ei gyfansoddi o dan yr offeryn llywodraethu. Dyma'r dyddiad ymgorffori, sy'n gorfod bod cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y dyddiad agor ond heb fod yn hwyrach na dyddiad olaf y tymor cyntaf.

Mae rheoliadau 44 a 45 yn ymdrin â phenodi ac ethol y llywodraethwyr sy'n angenrheidiol o dan yr offeryn llywodraethu.

Mae rheoliadau 46 i 48 yn darparu ar gyfer trosglwyddo eiddo, staff a hawliau a rhwymedigaethau eraill o'r corff llywodraethu dros dro i'r corff llywodraethu parhaol, ac ar gyfer paratoi adroddiad gan y corff llywodraethu dros dro.

Mae Rhan 9 yn gwneud rhai diwygiadau sy'n ymwneud ag ysgolion newydd i Reoliadau Cymeriad Crefyddol Ysgolion (Gweithdrefn Ddynodi) 1998.

Mae arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ac wedi'i osod ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ([www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)). Gellir cael copïau oddi wrth Isadran Rheolaeth Ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Part 8 deals with the transition from a temporary governing body to a permanent governing body constituted under an instrument of government. The local education authority must secure that an instrument of government is made before the school opening date.

The local education authority determines the date when the governing body will be constituted under the instrument of government. This is the incorporation date, which must be as soon as reasonably practicable after the opening date but no later than the last day of the first term.

Regulations 44 and 45 deal with the appointment and election of governors required by the instrument of government.

Regulations 46 to 48 provide for transfers of property, staff and other rights and liabilities from the temporary to the permanent governing body and for the preparation of a report by the temporary governing body.

Part 9 makes some amendments relating to new schools to the Religious Character of Schools (Designation Procedure) Regulations 1998.

A regulatory appraisal has been prepared and placed on the National Assembly for Wales website ([www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)). Copies can be obtained from the Welsh Assembly Government Schools Management Division, Crown Buildings, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

**2005 Rhif 2912 (Cy.209)**

**2005 No. 2912 (W.209)**

**ADDYSG, CYMRU**

**EDUCATION, WALES**

**Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir  
Newydd (Cymru) 2005**

**The New Maintained Schools  
(Wales) Regulations 2005**

*Wedi'u gwneud* 18 Hydref 2005

*Made* 18 October 2005

*Yn dod i rym* 31 Hydref 2005

*Coming into force* 31 October 2005

**TREFN Y RHEOLIADAU**

**ARRANGEMENT OF REGULATIONS**

**RHAN 1**

**PART 1**

Cyflwyniad

Introduction

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dirymu, arbedion a darpariaethau trosiannol
3. Dehongli
4. Cyflwyno hysbysiadau

1. Title, commencement and application
2. Revocation, savings and transitional provisions
3. Interpretation
4. Service of notices

**RHAN 2**

**PART 2**

Trefniadau ar gyfer Ymgorffori Cyrff Llywodraethu  
Dros Dro

Arrangements for the Incorporation of Temporary  
Governing Bodies

5. Trefniadau a wneir gan rag-weld y caiff cynigion eu cymeradwyo
6. Cytundebau sy'n angenrheidiol ar gyfer trefniadau
7. Terfynu trefniadau

5. Arrangements made in anticipation of approval of proposals
6. Agreements necessary for arrangements
7. Termination of arrangements

**RHAN 3**

**PART 3**

Categoriâu o Lywodraethwr Dros Dro

Categories of Temporary Governor

8. Dehongli'r Rhan hon
9. Rhiant-lywodraethwyr dros dro
10. Staff-lywodraethwyr dros dro
11. Athro-lywodraethwyr dros dro
12. Llywodraethwyr AALl dros dro
13. Llywodraethwyr cymunedol dros dro
14. Llywodraethwyr cymunedol ychwanegol dros dro
15. Llywodraethwyr sefydledig dros dro
16. Llywodraethwyr partneriaeth dros dro
17. Llywodraethwyr cynrychioliadol dros dro
18. Noddwr-lywodraethwyr dros dro
19. Profiad angenrheidiol llywodraethwyr dros dro
20. Cyd-benodi

#### **RHAN 4**

Cyfansoddiad Cyrff Llywodraethu Dros Dro

21. Cymhwyso'r Rheoliadau Llywodraethu

#### **RHAN 5**

Deiliadaeth Swyddi a Chymwysterau

22. Ymddiswyddo
23. Diswyddo
24. Y weithdrefn ar gyfer diswyddo llywodraethwyr dros dro gan y corff llywodraethu dros dro
25. Cymwysterau ac anghymhwyso
26. Treuliau
27. Gwybodaeth esboniadol

#### **RHAN 6**

Rhedeg Ysgolion Newydd yn Gyffredinol

- 28-29. Dehongli Rhan 6 a'i chymhwyso
30. Rhedeg yr ysgol cyn dyddiad agor yr ysgol
31. Rhedeg yr ysgol ar neu ar ôl dyddiad agor yr ysgol

8. Interpretation of this Part
9. Temporary parent governors
10. Temporary staff governors
11. Temporary teacher governors
12. Temporary LEA governors
13. Temporary community governors
14. Additional temporary community governors
15. Temporary foundation governors
16. Temporary partnership governors
17. Temporary representative governors
18. Temporary sponsor governors
19. Experience required of temporary governors
20. Joint appointments

#### **PART 4**

Constitution of Temporary Governing Bodies

21. Application of the Government Regulations

#### **PART 5**

Tenure of Office and Qualifications

22. Resignation
23. Removal
24. Procedure for removal of temporary governors by the temporary governing body
25. Qualifications and disqualifications
26. Expenses
27. Explanatory information

#### **PART 6**

General Conduct of New Schools

- 28-29. Interpretation and application of Part 6
30. Conduct of the school before the school opening date
31. Conduct of the school on or after the school opening date

32. Cyflawni dogfennau gan y corff llywodraethu dros dro
33. Paratoi'r cwricwlwm
34. Tymhorau, gwyliau a sesiynau'r ysgol
35. Adroddiadau a gwybodaeth
36. Ymgynghori ar wariant awdurdod addysg lleol

32. Execution of documents by the temporary governing body
33. Preparation of the curriculum
34. School terms, holidays and sessions
35. Reports and information
36. Consultation on expenditure by a local education authority

#### **RHAN 7**

Swyddogion, cyfarfodydd, trafodion, pwyllgorau a gwrthdrawiadau buddiannau

- 37-39. Penodi swyddogion, eu swyddogaethau a'u diswyddo
40. Cyfarfodydd a thrafodion cyrff llywodraethu dros dro
41. Pwyllgorau cyrff llywodraethu dros dro
42. Cyfyngiadau ar bersonau sy'n cymryd rhan mewn trafodion

Officers, meetings, proceedings, committees and conflicts of interest

- 37-39. Appointment, functions and removal of officers
40. Meetings and proceedings of temporary governing bodies
41. Committees of temporary governing bodies
42. Restrictions on persons taking part in proceedings

#### **RHAN 8**

Trosi o Gorff Llywodraethu Dros Dro i Gorff Llywodraethu

43. Gwneud offeryn llywodraethu a chyfansoddiad y corff llywodraethu
44. Llywodraethwyr newydd
45. Penodi llywodraethwyr newydd neu eu hethol
46. Eiddo, hawliau a rhwymedigaethau
47. Hawliau a rhwymedigaethau o dan contract cyflogaeth
48. Gwybodaeth ar gyfer olynwyr

#### **PART 8**

Transition from a Temporary Governing Body to a Governing Body

43. Making of instrument of government and constitution of the governing body
44. New governors
45. Appointment or election of new governors
46. Property, rights and liabilities
47. Rights and liabilities under a contract of employment
48. Information for successors

#### **RHAN 9**

Diwygio Rheoliadau Cymeriad Crefyddol Ysgolion (Gweithdrefn Ddynodi) 1998

49. Diwygio Rheoliadau Cymeriad Crefyddol Ysgolion (Gweithdrefn Ddynodi) 1998

#### **PART 9**

Amendments to the Religious Character of Schools (Designation Procedure) Regulations 1998

49. Amendments to the Religious Character of Schools (Designation Procedure) Regulations 1998

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau yn adrannau 72(1) a 138(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(1) ac adrannau 34(5) a (6), 210(7) a 214 o Ddeddf Addysg 2002(2), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

## RHAN 1

### Cyflwyniad

#### Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 31 Hydref 2005

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

#### Dirymu, arbedion a darpariaethau trosiannol

2.-(1) Mae Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion Newydd wrth Drosi i Fframwaith Newydd) 1998(3) yn cael eu dirymu mewn perthynas â Chymru.

(2) Mae Rhannau I i V, VII ac VIII o Reoliadau Addysg (Ysgolion Newydd) (Cymru) 1999(4) ("Rheoliadau 1999") yn cael eu dirymu heblaw fel y darperir ym mharagraffau (3) a (4).

(3) Bydd Rhan I o Reoliadau 1999 yn dal yn effeithiol i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan VI.

(4) Bydd Rhannau I i IV o Reoliadau 1999 yn dal yn effeithiol mewn perthynas ag unrhyw gorff llywodraethu dros dro a sefydlir cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

#### Dehongli

3.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

mae i "athro neu athrawes ysgol" yr ystyr a roddwyd i "*school teacher*" gan adran 122 o Ddeddf 2002;

ystyr "awdurdod addysg lleol" ("*local education authority*") yw'r awdurdod addysg lleol y cynhelir ysgol a gynhelir ganddo neu y bwriedir i ysgol arfaethedig o'r fath gael ei chynnal ganddo;

(1) 1998 p.31. Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) mae pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol a roddwyd gan y darpariaethau hyn yn arferadwy mewn perthynas â Chymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(2) Yn rhinwedd adran 212(2) o Ddeddf 2002 mae'r pwerau a roddwyd gan y darpariaethau hyn yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru yn unig.

(3) O.S. 1998/3097.

(4) O.S. 1999/2243 (Cy.3).

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers in sections 72(1) and 138(7) of the School Standards and Framework Act 1998(1) and sections 34(5) and (6), 210(7) and 214 of the Education Act 2002 (2), makes the following Regulations:

## PART 1

### Introduction

#### Title, commencement and application

1.-(1) The title of these Regulations is the New Maintained Schools (Wales) Regulations 2005 and they come into force on 31 October 2005

(2) These regulations apply in relation to Wales.

#### Revocation, savings and transitional provisions

2.-(1) The Education (Government of New Schools on Transition to New Framework) Regulations 1998(3) are revoked in relation to Wales.

(2) Parts I to V, VII and VIII of the Education (New Schools) (Wales) Regulations 1999(4) ("the 1999 Regulations") are revoked save as provided in paragraphs (3) and (4).

(3) Part I of the 1999 Regulations continue to have effect in so far as it relates to Part VI.

(4) Parts I to IV of the 1999 Regulations continue to have effect in relation to any temporary governing body established prior to the coming into force of these Regulations.

#### Interpretation

3.-(1) In these Regulations-

"the 1996 Act" ("*Deddf 1996*") means the Education Act 1996(5);

"the 1998 Act" ("*Deddf 1998*") means the School Standards and Framework Act 1998;

"the 2000 Act" ("*Deddf 2000*") means the Learning and Skills Act 2000(6);

(1) 1998 c.31. By virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) the powers on the Secretary of State conferred by these provisions are exercisable in relation to Wales by the National Assembly for Wales.

(2) By virtue of section 212(2) of the 2002 Act the powers conferred by these provisions are exercisable by the National Assembly for Wales only in relation to Wales.

(3) S.I. 1998/3097.

(4) S.I. 1999/2243 (W.3).

(5) 1996 c.56.

(6) 2000 c.21.

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(1);

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Dysgu a Sgiliau 2000(2);

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002;

mae i "disgybl" yr ystyr a roddwyd i "*pupil*" gan adran 3 o Ddeddf Addysg 1996(3);

mae "pennaeth" ("*head teacher*") yn cynnwys person sydd wedi'i benodi'n bennaeth ysgol newydd ond sydd heb ymgymryd â'r swydd eto;

ystyr "y Rheoliadau Llywodraethu" ("*the Government Regulations*") yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005(4); ac

mae i "ysgol newydd" yr ystyr a roddwyd i "*new school*" gan adran 72(3) o Ddeddf 1998.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriadau at ysgol y mae ganddi gyllideb ddirprwyedig i'w dehongli yn unol ag adran 39(2) o Ddeddf 2002.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr yr "addasiadau cyffredinol" yw'r addasiadau canlynol i'r Rheoliadau Llywodraethu-

- (a) mae "ysgol newydd" yn disodli "ysgol" ac "ysgol a gynhelir";
- (b) mae "dros dro" yn cael ei fewnosod ar ôl y geiriau "corff llywodraethu", "llywodraethwr" a "swydd llywodraethwr";
- (c) mae cyfeiriadau at gategori penodol o lywodraethwr i'w darllen fel cyfeiriadau at y categorïau cyfatebol o lywodraethwr dros dro sydd wedi'u nodi yn Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn; ac
- (ch) mae cyfeiriadau at bennaeth i gynnwys person sydd wedi'i benodi'n bennaeth ysgol newydd ond sydd heb ymgymryd â'r swydd eto.

(4) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn-

- (a) at bwyllgor yn gyfeiriad at bwyllgor sydd wedi'i sefydlu gan y corff llywodraethu dros dro ac y mae'r corff llywodraethu dros dro wedi dirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau statudol iddo;

"the 2002 Act" ("*Deddf 2002*") means the Education Act 2002;

"the Government Regulations" ("*y Rheoliadau Llywodraethu*") means the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005(1);

"head teacher" ("*pennaeth*") includes a person who has been appointed as the head teacher of a new school but who has not yet taken up the post;

"local education authority" ("*awdurdod addysg lleol*") means the local education authority by which a maintained school is, or a proposed such school is to be, maintained;

"new school" ("*ysgol newydd*") has the meaning given by section 72(3) of the 1998 Act;

"pupil" ("*disgybl*") has the meaning given by section 3 of the Education Act 1996(2); and

"school teacher" ("*athro neu athrawes ysgol*") has the meaning given by section 122 of the 2002 Act.

(2) In these Regulations, references to a school having a delegated budget are to be interpreted in accordance with section 39(2) of the 2002 Act.

(3) In these Regulations the "general modifications" mean the following modifications to the Government Regulations-

- (a) "new school" is substituted for "school" and "maintained school";
- (b) "temporary" is inserted before the words "governing body", "governor" and "governorship";
- (c) references to a particular category of governor are to be read as references to the corresponding categories of temporary governor set out in Part 3 of these Regulations; and
- (d) references to a head teacher are to include a person who has been appointed as the head teacher of a new school but who has not yet taken up the post.

(4) Any reference in these Regulations to-

- (a) a committee is a reference to a committee established by the temporary governing body to which the temporary governing body has delegated any of its statutory functions;

---

(1) 1996 p.56.

(2) 2000 p.21.

(3) Diwygiwyd adran 3 gan baragraff 34 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002.

(4) O.S. 2005/2914 (W.211).

---

(1) S.I. 2005/2914 (W. 211).

(2) Section 3 was amended by paragraph 34 of Schedule 21 to the Education Act 2002.



- (b) at gorff llywodraethu dros dro yn gyfeiriad at gorff llywodraethu dros dro unrhyw ysgol neu ysgol arfaethedig y mae'r ddarpariaeth yn gymwys mewn perthynas â hi;
- (c) at lywodraethwr dros dro o gategori penodol i'w ddehongli yn unol â Rhan 3.

(5) Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn-

- (a) at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn;
- (b) at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheoliad y mae'r cyfeiriad yn ymddangos ynddynt;
- (c) at is-baragraff â rhif yn gyfeiriad at yr is-baragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y paragraff y mae'r cyfeiriad yn ymddangos ynddo.

### Cyflwyno hysbysiadau

4. Rhaid i unrhyw hysbysiad y mae'n ofynnol ei gyflwyno o dan y Rheoliadau hyn gael ei gyflwyno yn unol ag adran 572 o Ddeddf 1996.

- (b) a temporary governing body is a reference to the temporary governing body of any school or proposed school in respect of which the provision applies;
- (c) a temporary governor of a particular category is to be interpreted in accordance with Part 3.

(5) Unless the context otherwise requires, any reference in these Regulations to-

- (a) a numbered regulation is a reference to the regulation bearing that number in these Regulations;
- (b) a numbered paragraph is a reference to the paragraph bearing that number in the regulation in which the reference appears; and
- (c) a numbered sub-paragraph is a reference to the sub-paragraph bearing that number in the paragraph in which the reference appears.

### Service of notices

4. Any notice required to be served by or under these Regulations must be served in accordance with section 572 of the 1996 Act.

## RHAN 2

Trefniadau ar gyfer Ymgorffori Cyrff Llywodraethu Dros Dro

### Trefniadau a wneir gan rag-weld y caiff cynigion eu cymeradwyo

5.-(1) Os oes unrhyw gynigion i sefydlu ysgol a gynhelir wedi'u cyhoeddi o dan unrhyw ddeddfiad(1), caiff yr awdurdod addysg lleol wneud trefniadau o dan adran 34 o Ddeddf 2002 gan rag-weld y caiff y cynigion eu cymeradwyo(2) neu gan rag-weld y bydd yr awdurdod yn penderfynu y dylai'r cynigion gael eu rhoi ar waith (3).

(2) Os yw'r cynigion yn gynigion i sefydlu ysgol wirfoddol a reolir, rhaid i'r awdurdod addysg lleol ymgynghori â'r hyrwyddwyr-

- (a) ynghylch a ddylai'r pŵer sydd wedi'i roi i'r awdurdod addysg lleol ym mharagraff (1) uchod gael ei arfer; a
- (b) os yw'r awdurdod addysg lleol yn bwriadu arfer y pŵer, ynghylch y dyddiad y dylai'r trefniadau gael eu gwneud arno.

## PART 2

Arrangements for the Incorporation of Temporary Governing Bodies

### Arrangements made in anticipation of approval of proposals

5.-(1) Where any proposals to establish a maintained school have been published under any enactment(1), the local education authority may make arrangements under section 34 of the 2002 Act in anticipation of approval of the proposals(2) or in anticipation of a determination by the authority that the proposals should be implemented(3).

(2) If proposals are to establish a voluntary controlled school, the local education authority must consult the promoters-

- (a) as to whether the power given to the local education authority in paragraph (1) above should be exercised; and
- (b) if the local education authority proposes to exercise it, as to the date on which the arrangements should be made.

(1) Gall cynigion gael eu cyhoeddi o dan adran 28 neu 31 o Ddeddf 1998, neu baragraff 5 o Atodlen 7 iddi neu adran 113A o Ddeddf 2000.

(2) O dan baragraff 8 o Atodlen 6 neu baragraff 13 o Atodlen 7 i Ddeddf 1998 neu adran 113A(5)(a) o Ddeddf 2000.

(3) O dan baragraff 9 o Atodlen 6 i Ddeddf 1998.

(1) Proposals may be published under section 28 or 31 of, or paragraph 5 of Schedule 7 to, the 1998 Act or section 113A of the 2000 Act.

(2) Under paragraph 8 of Schedule 6 or paragraph 13 of Schedule 7 to the 1998 Act or section 113A(5)(a) of the 2000 Act.

(3) Under paragraph 9 of Schedule 6 to the 1998 Act.

(3) Os yw'r cynigion yn gynigion i sefydlu ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig, rhaid i'r awdurdod addysg lleol a'r hyrwyddwyr ystyried-

- (a) a ddylai'r pŵer sydd wedi'i roi i'r awdurdod addysg lleol ym mharagraff (1) uchod gael ei arfer, a
- (b) os ydyn nhw'n cytuno y dylai gael ei arfer, ar ba ddyddiad y dylai'r trefniadau gael eu gwneud.

(4) Mewn achos o fewn paragraff (3), os yw'r awdurdod addysg lleol a'r hyrwyddwyr yn methu â chytuno ar y cwestiwn y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) neu'r cwestiwn y cyfeirir ato yn is-baragraff (b), caiff y naill neu'r llall ohonynt gyfeirio'r mater at Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac ar gyfeiriad o dan y paragraff hwn rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru roi unrhyw gyfarwyddyd y mae'n credu ei fod yn addas.

### **Cytundebau sy'n angenrheidiol ar gyfer trefniadau**

6.-(1) Os oes cynigion i sefydlu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol wedi'u cyhoeddi gan hyrwyddwyr, rhaid i awdurdod addysg lleol beidio â gwneud trefniadau mewn perthynas â'r ysgol heb gytundeb yr hyrwyddwyr ynglŷn ag unrhyw ddarpariaeth a wneir mewn perthynas â'r llywodraethwyr sefydledig dros dro.

(2) Os ceir unrhyw anghytuno rhwng yr awdurdod addysg lleol a'r hyrwyddwyr mewn perthynas â'r ddarpariaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1), caiff y naill neu'r llall ohonynt gyfeirio'r mater at Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac ar gyfeiriad o dan y paragraff hwn rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru roi unrhyw gyfarwyddyd y mae'n credu ei fod yn addas.

### **Terfynu trefniadau**

7. Rhaid i unrhyw drefniadau sydd wedi'u gwneud o dan reoliad 5 ddod i ben cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol-

- (a) os caiff y cynigion eu tynnu'n ôl;
- (b) os caiff y cynigion eu gwrthod o dan baragraff 8 o Atodlen 6 neu baragraff 14 o Atodlen 7 i Ddeddf 1998;
- (c) yn achos cynigion nad oes angen eu cymeradwyo o dan baragraff 8 o Atodlen 6 i Ddeddf 1998, os yw'r corff neu'r hyrwyddwyr y cyhoeddwyd y cynigion ganddynt yn penderfynu o dan baragraff 9 o Atodlen 6 i Ddeddf 1998 na ddylid eu rhoi ar waith; neu
- (ch) os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n penderfynu o dan baragraff 10(3) o Atodlen 6 i Ddeddf 1998 na ddylai paragraff 10(1) o'r Atodlen honno fod yn gymwys i'r cynigion mwyach.

(3) If proposals are to establish a voluntary aided or foundation school, the local education authority and the promoters must consider-

- (a) whether the power given to the local education authority in paragraph (1) above should be exercised, and
- (b) where they agree that it should, on what date the arrangements should be made.

(4) Where in a case falling within paragraph (3) the local education authority and the promoters fail to agree on the question referred to in sub-paragraph (a) or on that referred to in sub-paragraph (b), either of them may refer the matter to the National Assembly for Wales and on a reference under this paragraph the National Assembly for Wales must give such direction as it thinks fit.

### **Agreements necessary for arrangements**

6.-(1) Where proposals to establish a foundation school or a voluntary school have been published by promoters, a local education authority must not make arrangements in respect of the school without the agreement of the promoters as to any provision to be made in relation to the temporary foundation governors.

(2) In the event of any disagreement between the local education authority and the promoters in respect of the provision referred to in paragraph (1), either of them may refer the issue to the National Assembly for Wales and, on a reference under this paragraph the National Assembly for Wales, must give such direction as it thinks fit.

### **Termination of arrangements**

7. Any arrangements made under regulation 5 must come to an end as soon as reasonably practicable if-

- (a) the proposals are withdrawn;
- (b) the proposals are rejected under paragraph 8 of Schedule 6 or paragraph 14 of Schedule 7 to the 1998 Act;
- (c) in the case of proposals not requiring approval under paragraph 8 of Schedule 6 to the 1998 Act, the body or promoters by whom the proposals were published determine under paragraph 9 of Schedule 6 to the 1998 Act not to implement them; or
- (d) the National Assembly for Wales determine under paragraph 10(3) of Schedule 6 to the 1998 Act that paragraph 10(1) of that Schedule should cease to apply to the proposals.

## RHAN 3

Categoriâu o Lywodraethwr Dros Dro

### Dehongli'r Rhan hon

#### 8. Yn y Rhan hon-

- (a) ystyr "yr achos cyntaf" yw achos ysgol newydd sydd neu a fydd yn ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig, ysgol feithrin a gynhelir neu ysgol sefydledig y cafodd y cynigion ar gyfer ei sefydlu eu cyhoeddi gan awdurdod addysg lleol, a
- (b) ystyr "yr ail achos" yw achos ysgol newydd sydd neu a fydd yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig y cafodd y cynigion ar gyfer ei sefydlu eu cyhoeddi gan hyrwyddwyr.

### Rhiant-lywodraethwyr dros dro

9.-(1) "Rhiant-lywodraethwr dros dro" yw person sydd wedi'i benodi'n aelod o gorff llywodraethu dros dro ysgol newydd-

- (a) gan yr awdurdod addysg lleol, yn yr achos cyntaf; neu
- (b) gan yr hyrwyddwyr, yn yr ail achos.

(2) Os oes un neu fwy o ysgolion a gynhelir wedi'u cau, neu i'w cau ("yr ysgolion a gaewyd"), ac y disgwylir i ddisgyblion cofrestredig yr ysgol honno neu'r ysgolion hynny, neu nifer sylweddol o'r disgyblion hynny, drosglwyddo i ysgol newydd, fe gaiff

- (a) yr awdurdod addysg lleol, yn yr achos cyntaf, neu
- (b) yr hyrwyddwyr, yn yr ail achos,

ddarparu i gorff llywodraethu yr ysgol neu'r ysgolion a gaewyd benodi rhai neu'r cyfan o riant-lywodraethwyr dros dro yr ysgol newydd.

(3) Ni chaniateir i neb gael ei benodi'n rhiant-lywodraethwr dros dro ysgol wirfoddol a reolir gan awdurdod addysg lleol, ac ni chaniateir gwneud unrhyw ddarpariaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (2) uchod mewn perthynas ag ysgol wirfoddol a reolir, oni bai bod yr awdurdod addysg lleol wedi ymgynghori â'r hyrwyddwyr yn gyntaf.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (6), ni chaniateir i neb gael ei benodi'n rhiant-lywodraethwr dros dro ysgol newydd oni bai-

- (a) ei fod yn rhiant i blentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol neu sy'n debyg o ddod yn ddisgybl cofrestredig ynddi; neu
- (b) os nad yw'n rhesymol ymarferol penodi person o'r fath, ei fod yn rhiant i blentyn o oedran ysgol gorfodol, neu yn achos ysgol feithrin a

## PART 3

Categories of Temporary Governor

### Interpretation of this Part

#### 8. In this Part-

- (a) "the first case" means that of a new school that is or will be a community, voluntary controlled, community special or foundation special school, a maintained nursery school or a foundation school proposals for the establishment of which were published by a local education authority, and
- (b) "the second case" means that of a new school that is or will be a voluntary aided school, or a foundation school proposals for the establishment of which were published by promoters.

### Temporary parent governors

9.-(1) A "temporary parent governor" is a person appointed to be a member of the temporary governing body of a new school by-

- (a) the local education authority, in the first case; or
- (b) the promoters, in the second case.

(2) Where one or more maintained schools have been, or are to be, discontinued ("the discontinued schools"), and the registered pupils at such school or schools, or a substantial number of those pupils, are expected to transfer to a new school,

- (a) the local education authority, in the first case, or
- (b) the promoters, in the second case,

may provide for the governing body of the discontinued school or schools to appoint some or all of the temporary parent governors of the new school.

(3) No person may be appointed as a temporary parent governor of a voluntary controlled school by a local education authority, and no provision referred to in paragraph (2) above may be made in respect of a voluntary controlled school, unless the local education authority has first consulted the promoters.

(4) Subject to paragraphs (5) and (6), no person may be appointed as a temporary parent governor of a new school unless-

- (a) he or she is the parent of a child who is or is likely to become a registered pupil at the school; or
- (b) where it is not reasonably practicable to appoint such a person, he or she is the parent of a child of compulsory school age, or in the

gynhelir newydd rhiant i blentyn o oedran neu o dan ysgol gorfodol.

(5) Ni chaniateir i neb gael ei benodi'n rhiant-lywodraethwr dros dro ysgol sydd neu a fydd yn ysgol gymunedol arbennig neu'n ysgol sefydledig arbennig sydd heb gael ei sefydlu mewn ysbyty oni bai ei fod-

- (a) yn rhiant i blentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol neu sy'n debyg o ddod yn ddisgybl cofrestredig ynddi;
- (b) yn rhiant i blentyn o oedran ysgol gorfodol sydd ag anghenion addysgol arbennig;
- (c) yn rhiant i berson o unrhyw oedran sydd ag anghenion addysgol arbennig; neu
- (ch) yn rhiant i blentyn o ysgol oedran gorfodol.

(6) Dim ond os nad yw'n rhesymol ymarferol penodi person y cyfeirir ato yn y ddarpariaeth yn yr is-baragraff yn union o'i flaen y ceir penodi person y cyfeirir ato yn is-baragraffau (b), (c) neu (ch) o baragraff (5).

(7) Anghymhwysir person rhag cael ei benodi'n rhiant-lywodraethwr dros dro os yw-

- (a) yn aelod etholedig o'r awdurdod addysg lleol;
- (b) yn cael ei gyflogi gan yr awdurdod addysg lleol mewn cysylltiad â'i swyddogaethau fel awdurdod addysg lleol; neu
- (c) yn cael ei dalu, neu'n debyg o gael ei dalu, i weithio yn yr ysgol am fwy na 500 o oriau mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis sy'n dechrau ar 1 Awst ac yn dod i ben ar 31 Gorffennaf.

(8) Nid anghymhwysir person rhag parhau i ddal swydd rhiant-lywodraethwr dros dro pan yw'n peidio â bodloni unrhyw un o'r gofynion a nodwyd ym mharagraffau (5) a (6), oni bai ei fod wedi'i anghymhwyso o dan y Rheoliadau hyn mewn ffordd arall.

### **Staff-lywodraethwyr dros dro**

**10.**-(1) "Staff-lywodraethwr dros dro" yw person sydd wedi'i benodi'n aelod o gorff llywodraethu dros dro ysgol newydd yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid i'r awdurdod addysg lleol yn yr achos cyntaf a'r hyrwyddwyr yn yr ail achos-

- (a) penderfynu a ddylai staff-lywodraethwr dros dro gael ei gynnwys ar gorff llywodraethu dros dro yr ysgol newydd yn unol â'r Rheoliadau Llywodraethu (fel y maent wedi'u haddasu gan y Rheoliadau hyn) ac, os penderfynant felly,

case of a new maintained nursery school, the parent of a child of or under compulsory school age.

(5) No person may be appointed as a temporary parent governor of a school which is or will be a community or foundation special school not established in a hospital unless he or she is-

- (a) the parent of a child who is or is likely to become a registered pupil at the school;
- (b) the parent of a child of compulsory school age with special educational needs;
- (c) the parent of a person of any age with special educational needs; or
- (d) a parent of a child of compulsory school age.

(6) A person referred to in sub-paragraphs (b), (c) or (d) of paragraph (5) may only be appointed if it is not reasonably practicable to appoint a person referred to in the provision in that sub-paragraph which immediately precedes it.

(7) A person is disqualified from appointment as a temporary parent governor if he or she is-

- (a) an elected member of the local education authority;
- (b) employed by the local education authority in connection with its functions as a local education authority; or
- (c) paid, or likely to be paid, to work at the school for more than 500 hours in any twelve month period commencing on 1 August and finishing on 31 July.

(8) A person is not disqualified from continuing to hold office as a temporary parent governor when he or she ceases to fulfil any of the requirements set out in paragraphs (5) and (6), unless he or she is otherwise disqualified under these Regulations.

### **Temporary staff governors**

**10.**-(1) A "temporary staff governor" is a person appointed to be a member of a temporary governing body of a new school in accordance with this regulation.

(2) The local education authority in the first case and the promoters in the second case must-

- (a) determine whether a temporary staff governor should be included on the temporary governing body of the new school in accordance with the Government Regulations (as modified by these Regulations) and, if they so determine,

(b) penodi staff-lywodraethwr dros dro.

(3) Ni chaniateir i neb gael ei benodi o dan baragraff (2) oni bai ei fod wedi'i gyflogi i weithio mewn ysgol a gynhelir, heblaw fel athro neu athrawes ysgol, ar yr adeg y caiff ei benodi.

(4) Pan ddaw ei gyflogaeth mewn ysgol a gynhelir i ben, anghymhwysir staff-lywodraethwr dros dro mewn ysgol newydd rhag parhau i ddal swydd fel llywodraethwr o'r fath

### **Athro-lywodraethwyr dros dro**

**11.**-(1) "Athro-lywodraethwr dros dro" yw person sydd wedi'i benodi'n aelod o gorff llywodraethu dros dro ysgol newydd yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Yn yr achos cyntaf, rhaid i athro-lywodraethwr dros dro gael ei benodi gan y corff llywodraethu dros dro.

(3) Yn yr ail achos, rhaid i athro-lywodraethwr dros dro fod yn berson sydd wedi'i enwebu gan yr hyrwyddwyr ac wedi'i benodi gan yr awdurdod addysg lleol.

(4) Os oes un neu fwy o ysgolion a gynhelir wedi'u cau, neu i'w cau, ac y disgwylir i ddisgyblion cofrestredig yr ysgol neu'r ysgolion, neu nifer sylweddol ohonynt, drosglwyddo i ysgol newydd, fe gaiff

(a) yr awdurdod addysg lleol, yn yr achos cyntaf, neu

(b) yr hyrwyddwyr, yn yr ail achos,

ddarparu i gorff llywodraethu yr ysgol neu'r ysgolion a gaewyd benodi rhai neu'r cyfan o athro-lywodraethwyr dros dro yr ysgol newydd.

(5) Ni chaniateir gwneud unrhyw ddarpariaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (4) uchod mewn perthynas ag ysgol wirfoddol a reolir oni bai bod yr awdurdod addysg lleol wedi ymgynghori â'r hyrwyddwyr yn gyntaf.

(6) Ni chaniateir i neb gael ei enwebu na'i benodi yn athro-lywodraethwr dros dro oni bai ei fod yn athro neu athrawes ysgol a gyflogir mewn ysgol a gynhelir.

(7) Pan fydd yn peidio â gweithio mewn ysgol a gynhelir, anghymhwysir athro-lywodraethwr dros dro rhag parhau i ddal swydd llywodraethwr dros dro o'r fath.

### **Llywodraethwyr AALl dros dro**

**12.**-(1) "Llywodraethwr AALl dros dro" yw person sydd wedi'i benodi'n aelod o gorff llywodraethu dros dro ysgol newydd gan yr awdurdod addysg lleol.

(2) Anghymhwysir person rhag cael ei benodi'n llywodraethwr AALl dros dro ysgol os yw'n gymwys i

(b) appoint a temporary staff governor.

(3) No person may be appointed under paragraph (2) unless he or she is employed to work at a maintained school, other than as a school teacher, at the time when he or she is appointed.

(4) A temporary staff governor at a new school is, upon ceasing to be employed at a maintained school, disqualified from continuing to hold office as such a governor

### **Temporary teacher governors**

**11.**-(1) A "temporary teacher governor" is a person who is appointed to be a member of the temporary governing body of a new school in accordance with this regulation.

(2) In the first case, a temporary teacher governor must be appointed by the temporary governing body.

(3) In the second case, a temporary teacher governor must be a person nominated by the promoters and appointed by the local education authority.

(4) Where one or more maintained schools have been, or are to be, discontinued and the registered pupils of the school or schools, or a substantial number of them, are expected to transfer to a new school,

(a) the local education authority, in the first case, or

(b) the promoters, in the second case,

may provide for the governing body of the discontinued school or schools to appoint some or all of the temporary teacher governors of the new school.

(5) No provision referred to in paragraph (4) above may be made in respect of a voluntary controlled school unless the local education authority has first consulted the promoters.

(6) No person may be nominated or appointed as a temporary teacher governor unless he or she is a school teacher employed at a maintained school.

(7) A temporary teacher governor is, upon ceasing to work at a maintained school, disqualified from continuing to hold office as such a temporary governor.

### **Temporary LEA governors**

**12.**-(1) A "temporary LEA governor" is a person appointed to be a member of the temporary governing body of a new school by the local education authority.

(2) A person is disqualified from appointment as a temporary LEA governor of a school if he or she is

fod yn staff-lywodraethwr dros dro neu'n athro-lywodraethwr dros dro ysgol.

### **Llywodraethwyr cymunedol dros dro**

13.-(1) "Llywodraethwr cymunedol dros dro" yw person sydd wedi'i benodi'n aelod o gorff llywodraethu dros dro ysgol newydd gan y corff llywodraethu dros dro ac sydd:

- (a) yn berson sy'n byw neu'n gweithio yn y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu gan yr ysgol newydd neu sydd i gael ei gwasanaethu ganddi; neu
- (b) yn berson sydd, ym marn y corff llywodraethu dros dro, wedi ymroi i lywodraeth dda a llwyddiant yr ysgol newydd.

(2) Anghymhwysir person rhag cael ei benodi'n llywodraethwr cymunedol dros dro os yw:

- (a) yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol newydd neu'n debyg o ddod yn ddisgybl cofrestredig ynddi;
- (b) yn gymwys i fod yn staff-lywodraethwr dros dro neu'n athro-lywodraethwr dros dro yn yr ysgol newydd; neu
- (c) yn aelod etholedig o'r awdurdod addysg lleol.

### **Llywodraethwyr cymunedol ychwanegol dros dro**

14.-(1) "Llywodraethwr cymunedol ychwanegol dros dro" yw person sydd wedi'i benodi'n aelod o gorff llywodraethu dros dro ysgol newydd gan y corff llywodraethu dros dro ar ôl cael ei enwebu yn unol â rheoliad 20 o'r Rheoliadau Llywodraethu fel y maent wedi'u haddasu gan y Rheoliadau hyn.

(2) Nid yw rheoliad 13(2) yn gymwys i lywodraethwyr cymunedol ychwanegol dros dro.

### **Llywodraethwyr sefydledig dros dro**

15.-(1) "Llywodraethwr sefydledig dros dro" yw person sydd wedi'i benodi'n aelod o gorff llywodraethu dros dro ysgol newydd, heblaw gan yr awdurdod addysg lleol, ac sydd:

- (a) os oes gan yr ysgol newydd gymeriad crefyddol penodol a ddynodwyd neu y bwriedir ei ddynodi drwy orchymyn o dan adran 69(3) o Ddeddf 1998, neu os yw'r cynigion i'w sefydlu'n dangos y bydd ganddi gymeriad crefyddol penodol o'r fath, wedi'i benodi er mwyn sicrhau bod y cymeriad hwnnw'n cael ei sefydlu a'i ddatblygu;
- (b) os oes neu os bydd gan yr ysgol newydd weithred ymddiriedolaeth, wedi'i benodi er mwyn sicrhau bod yr ysgol newydd yn cael ei sefydlu a'i rhedeg yn unol â'r weithred honno; neu

eligible to be a temporary staff governor or a temporary teacher governor of a school.

### **Temporary community governors**

13.-(1) A "temporary community governor" is a person who is appointed to be a member of the temporary governing body of a new school by the temporary governing body and who is:

- (a) a person who lives or works in the community served, or to be served, by the new school; or
- (b) a person who, in the opinion of the temporary governing body, is committed to the good government and success of the new school.

(2) A person is disqualified from appointment as a temporary community governor if he or she:

- (a) is or is likely to become a registered pupil at the new school;
- (b) is eligible to be a temporary staff governor or temporary teacher governor of the new school; or
- (c) is an elected member of the local education authority.

### **Additional temporary community governors**

14.-(1) A "additional temporary community governor" is a person who is appointed to be a member of the temporary governing body of a new school by the temporary governing body having been nominated in accordance with regulation 20 of the Government Regulations as modified by these Regulations.

(2) Regulation 13(2) does not apply to additional temporary community governors.

### **Temporary foundation governors**

15.-(1) A "temporary foundation governor" is a person who is appointed as a member of the temporary governing body of a new school, otherwise than by the local education authority, and who:

- (a) where the new school has, or the proposals for its establishment indicate that it will have, a particular religious character designated or intended to be designated by order under section 69(3) of the 1998 Act, is appointed for the purpose of securing that the character is established and developed;
- (b) where the new school has or will have a trust deed, is appointed for the purpose of securing that new school is established and conducted in accordance with that deed; or

- (c) os nad oes neu os na fydd gan yr ysgol newydd na chymeriad crefyddol penodol na gweithred ymddiriedolaeth, wedi'i benodi yn llywodraethwr sefydledig dros dro i'r ysgol newydd.

(2) "Llywodraethwr sefydledig dros dro *ex officio*" yw llywodraethwr sefydledig dros dro sy'n ddeiliaid swydd y mae ganddo hawl i fod yn llywodraethwr sefydledig dros dro yn rhinwedd y swydd honno.

(3) Pan fydd yn peidio â dal y swydd y mae ei swydd llywodraethwr dros dro yn deillio ohoni, anghymhwysir llywodraethwr sefydledig dros dro *ex officio* rhag parhau i ddal swydd llywodraethwr dros dro o'r fath.

### Llywodraethwyr partneriaeth dros dro

16.-(1) "Llywodraethwr partneriaeth dros dro" yw-

- (a) yn achos ysgol sefydledig newydd neu ysgol arbennig sefydledig newydd y cafodd y cynigion i'w sefydlu eu cyhoeddi gan awdurdod addysg lleol, person sydd wedi'i benodi'n llywodraethwr o'r fath gan yr awdurdod addysg lleol;
- (b) mewn unrhyw achos arall, person sydd wedi'i enwebu yn llywodraethwr o'r fath gan yr hyrwyddwyr ac wedi'i benodi'n llywodraethwr o'r fath gan yr awdurdod addysg lleol.

(2) Rhaid i berson sy'n enwebu person i'w benodi'n llywodraethwr partneriaeth dros dro, neu sy'n penodi person yn llywodraethwr partneriaeth dros dro fod wedi'i fodloni ei bod yn ymddangos bod y sawl sydd wedi'i enwebu neu wedi'i benodi-

- (a) yn dod o'r gymuned y mae neu y bydd yr ysgol newydd yn ei gwasanaethu; neu
- (b) wedi ymroi i lywodraeth dda a llwyddiant yr ysgol.

(3) Anghymhwysir person rhag cael ei enwebu neu ei benodi'n llywodraethwr partneriaeth dros dro ysgol newydd os yw:

- (a) yn rhiant i blentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol newydd neu'n debyg o ddod yn ddisgybl cofrestredig ynddi;
- (b) yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol newydd neu'n debyg o ddod yn ddisgybl cofrestredig ynddi;
- (c) yn gymwys i fod yn staff-lywodraethwr dros dro neu'n athro-lywodraethwr dros dro yn yr ysgol newydd;
- (ch) yn aelod etholedig o'r awdurdod addysg lleol; neu
- (d) wedi'i gyflogi gan yr awdurdod addysg lleol mewn cysylltiad â'i swyddogaethau fel awdurdod addysg lleol.

- (c) where the new school does not have, nor will have, either a particular religious character or a trust deed, is appointed as a temporary foundation governor of the new school.

(2) An "*ex officio* temporary foundation governor" is a temporary foundation governor who is the holder of an office by virtue of which he or she is entitled to be a temporary foundation governor.

(3) An *ex officio* temporary foundation governor is, upon ceasing to hold the office from which his or her temporary governorship derives, disqualified from continuing to hold office as such a temporary governor.

### Temporary partnership governors

16.-(1) A "temporary partnership governor" is-

- (a) in the case of a new foundation school or a new foundation special school proposals for the establishment of which were published by a local education authority, a person appointed as such by the local education authority;
- (b) in any other case, a person nominated as such by the promoters and appointed as such by the local education authority.

(2) A person who nominates a person for appointment as, or appoints a person as, a temporary partnership governor must be satisfied that the nominee or appointee appears to be-

- (a) from the community which the new school serves or will serve; or
- (b) committed to the good government and success of the school.

(3) A person is disqualified from nomination or appointment as a temporary partnership governor of a new school if he or she:

- (a) is a parent of a child who is or is likely to become a registered pupil at the new school;
- (b) is or is likely to become a registered pupil at the new school;
- (c) is eligible to be a temporary staff governor or temporary teacher governor of the new school;
- (d) is an elected member of the local education authority; or
- (e) is employed by the local education authority in connection with its functions as a local education authority.

### **Llywodraethwyr cynrychioliadol dros dro**

17. "Llywodraethwr cynrychioliadol dros dro" yw person sydd wedi'i benodi yn unol â pharagraffau (4) neu (5) o reoliad 15 o'r Rheoliadau Llywodraethu fel y maent wedi'u haddasu gan y Rheoliadau hyn.

### **Noddwr-lywodraethwyr dros dro**

18.-(1) "Noddwr-lywodraethwr dros dro" yw person sydd wedi'i benodi'n aelod o gorff llywodraethu dros dro ysgol newydd yn unol â pharagraff (3).

(2) Ystyr "noddwr" mewn perthynas ag ysgol yw:

- (a) person sy'n rhoi neu sydd wedi rhoi cymorth ariannol sylweddol (sydd at y dibenion hyn yn cynnwys buddion mewn da) i'r ysgol heblaw yn unol â rhwymedigaeth statudol; neu
- (b) unrhyw berson arall (nad yw fel arall wedi'i gynrychioli ar y corff llywodraethu) sy'n rhoi neu sydd wedi rhoi gwasanaethau sylweddol i'r ysgol.

(3) Os oes gan ysgol newydd un neu fwy o noddwyr, caiff y corff llywodraethu dros dro benodi un neu ddau o noddwr-lywodraethwyr dros dro, wedi'u henwebu yn unol â pharagraff (4).

(4) Os yw'r corff llywodraethu dros dro yn bwriadu penodi noddwr-lywodraethwyr dros dro, rhaid iddo ofyn am enwebiadau ar gyfer y penodiadau hynny gan noddwr yr ysgol neu, yn ôl fel y digwydd, gan un neu fwy o noddwyr yr ysgol.

### **Profiad angenrheidiol llywodraethwyr dros dro**

19.-(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n gyfrifol am benodi person yn llywodraethwr dros dro roi sylw i'r ffaith ei bod yn ddymunol bod gan y person hwnnw brofiad addas.

(2) Mae gan berson brofiad addas at ddibenion paragraff (1)-

- (a) os yw wedi gwasanaethu fel llywodraethwr neu lywodraethwr dros dro ysgol a gynhelir; a
- (b) mewn achos lle disgwylir i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol sydd wedi'i chau neu sydd i'w chau drosglwyddo i ysgol newydd y mae'r penodiad yn ymwneud â hi, os yw wedi gwasanaethu fel llywodraethwr neu lywodraethwr dros dro yn yr ysgol sydd wedi'i chau neu sydd i'w chau.

### **Cyd-benodi**

20. Os oes llywodraethwr dros dro i gael ei benodi gan bersonau sy'n gweithredu ar y cyd, a bod y personau hynny'n methu â chytuno ar benodiad, rhaid i'r penodiad gael ei wneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, neu yn unol â chyfarwyddyd a roddir ganddo.

### **Temporary representative governors**

17. A "temporary representative governor" is a person appointed in accordance with paragraphs (4) or (5) of regulation 15 of the Government Regulations as modified by these Regulations.

### **Temporary sponsor governors**

18.-(1) A "temporary sponsor governor" is a person appointed to be a member of a temporary governing body of a new school in accordance with paragraph (3).

(2) "Sponsor" in relation to a school means:

- (a) a person who gives or has given substantial financial assistance (which for these purposes includes benefits in kind) to the school other than pursuant to a statutory obligation; or
- (b) any other person (not being otherwise represented on the governing body) who provides or has provided substantial services to the school.

(3) Where a new school has one or more sponsors, the temporary governing body may appoint one or two temporary sponsor governors, nominated in accordance with paragraph (4).

(4) Where the temporary governing body intends to appoint temporary sponsor governors, it must seek nominations for such appointments from the school's sponsor or, as the case may be, from one or more of the school's sponsors.

### **Experience required of temporary governors**

19.-(1) Any person responsible for the appointment of a person as a temporary governor must have regard to the desirability of that person being suitably experienced.

(2) A person is suitably experienced for the purposes of paragraph (1)-

- (a) if he or she has served as a governor or a temporary governor of a maintained school; and
- (b) in a case where registered pupils at a school which has been, or is to be, discontinued are expected to transfer to a new school to which the appointment relates, if he or she has served as a governor or a temporary governor of the school which has been, or is to be discontinued.

### **Joint appointments**

20. If a temporary governor is to be appointed by persons acting jointly, and those persons fail to make an agreed appointment, the appointment must be made by, or in accordance with a direction given by the National Assembly for Wales.



**Cymhwysu'r Rheoliadau Llywodraethu**

21.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i gorff llywodraethu dros dro ysgol newydd gael ei gyfansoddi yn unol â'r rhai hynny o reoliadau 13 i 20 o'r Rheoliadau Llywodraethu sy'n gymwys, o roi sylw i gategori'r ysgol neu'r ysgol arfaethedig, ac eithrio bod dim ond angen cynnwys staff-lywodraethwyr ar gorff llywodraethu dros dro ysgol newydd os yw'r awdurdod addysg lleol neu'r hyrwyddwyr, yn ôl fel y digwydd, wedi penderfynu felly yn unol â rheoliad 10(2)(a).

(2) Os yw'r rhai hynny o reoliadau 13 i 20 o'r Rheoliadau Llywodraethu, fel sy'n gymwys, yn darparu ar gyfer disgrisiwn ynghylch nifer y llywodraethwyr o gategori penodol sydd i'w cynnwys ar gorff llywodraethu, rhaid i nifer y llywodraethwyr dros dro o'r categori cyfatebol sydd i'w cynnwys ar y corff llywodraethu dros dro fod y nifer isaf a ganiateir o dan y darpariaethau hynny.

(3) At ddibenion cyfrifo nifer y llywodraethwyr sefydledig dros dro y mae eu hangen mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyr rhaid cymryd bod pennaeth wedi'i benodi ac yn aelod o'r corff llywodraethu dros dro.

(4) Er mwyn cyfansoddi corff llywodraethu dros dro, mae'r Rheoliadau Llywodraethu yn gymwys yn ddarostyngedig i'r addasiadau cyffredinol a'r addasiadau canlynol-

- (a) mae cyfeiriadau at ysgol sydd wedi'i sefydlu mewn ysbyty (neu sydd heb ei sefydlu mewn ysbyty) yn cynnwys cyfeiriadau at ysgol y bwriedir ei sefydlu mewn ysbyty (neu heblaw mewn ysbyty);
- (b) mae'r cyfeiriad yn rheoliad 15(5) o'r Rheoliadau Llywodraethu at "materion y trefnir yr ysgol yn arbennig ar eu cyfer" i'w drin fel cyfeiriad at y materion y bwriedir i'r ysgol gael ei threfnu'n arbennig ar eu cyfer;
- (c) nid yw rheoliad 19(4) o'r Rheoliadau Llywodraethu yn gymwys; ac
- (ch) mewn perthynas â chyfansoddiad corff llywodraethu dros dro ysgol newydd, caiff yr ysgol newydd ei thrin fel pe bai ganddi fel disgyblion cofrestredig y nifer hwnnw o ddisgyblion sydd wedi'i bennu ar sail y cynigion ar gyfer sefydlu'r ysgol.

**Application of the Government Regulations**

21.-(1) Subject to paragraphs (2) to (4), the temporary governing body of a new school must be constituted in accordance with such of regulations 13 to 20 of the Government Regulations as are applicable, having regard to the category of school or proposed school, save that staff governors are required to be included on a temporary governing body of a new school only if the local education authority or promoters, as the case may be, have so determined under regulation 10(2)(a).

(2) Where such of regulations 13 to 20 of the Government Regulations as are applicable provide a discretion as to the number of governors of a particular category to be included on the governing body, the number of temporary governors of the corresponding category included on the temporary governing body must be the lower number permitted under those provisions.

(3) For the purposes of calculating the number of temporary foundation governors required at a voluntary aided school, it must be assumed that a head teacher has been appointed and is a member of the temporary governing body.

(4) For the purposes of the constitution of a temporary governing body, the Government Regulations apply subject to the general modifications and the following modifications-

- (a) references to a school being established in a hospital (or not established in a hospital) include references to a school which it is proposed to establish in a hospital (or otherwise than in a hospital);
- (b) the reference in regulation 15(5) of the Government Regulations to "matters in respect of which the school is specially organised" is treated as a reference to the matters in respect of it is proposed that the school will be specially organised;
- (c) regulation 19(4) of the Government Regulations does not apply; and
- (d) in relation to the constitution of the temporary governing body of a new school, the new school is treated as having as registered pupils the number of pupils determined from the proposals for the establishment of the school.

**Ymddiswyddo**

**22.**-(1) Caiff unrhyw aelod o gorff llywodraethu dros dro ymddiswyddo o'i swydd llywodraethwr drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i glerc corff llywodraethu dros dro yr ysgol.

(2) Caiff llywodraethwr sefydledig dros dro *ex officio* ymddiswyddo fel llywodraethwr dros dro naill ai'n barhaol neu dros dro ond ni fydd ei ymddiswyddiad yn rhagfarnu swydd llywodraethwr dros dro ei olynnydd yn y swydd y mae'r swydd llywodraethwr dros dro *ex officio* yn deillio ohoni.

(3) Caiff y pennaeth dynnu ei ymddiswyddiad yn ôl unrhyw bryd drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i glerc y corff llywodraethu dros dro.

**Diswyddo**

**23.**-(1) Caniateir i unrhyw lywodraethwr dros dro ysgol newydd gael ei ddiswyddo gan y person neu'r personau a'i penododd

(2) Yn achos diswyddo llywodraethwr dros dro a grybwyllir yn rheoliad 24(1), rhaid i'r corff llywodraethu ddilyn y weithdrefn a nodir yn y rheoliad hwnnw, ac ym mhob achos arall rhaid i'r person sy'n diswyddo'r llywodraethwr dros dro roi hysbysiad ysgrifenedig ynglŷn â hynny i glerc y corff llywodraethu dros dro ac i'r llywodraethwr sy'n cael ei ddiswyddo fel hyn.

**Y weithdrefn ar gyfer diswyddo llywodraethwyr dros dro gan y corff llywodraethu dros dro**

**24.**-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â diswyddo:

- (a) rhiant-lywodraethwr dros dro sydd wedi'i benodi gan y corff llywodraethu dros dro,
- (b) athro-lywodraethwr dros dro sydd wedi'i benodi gan y corff llywodraethu dros dro, neu
- (c) noddwr-lywodraethwr dros dro.

(2) Ni fydd penderfyniad i ddiswyddo llywodraethwr dros dro sy'n cael ei basio yn un o gyfarfodydd y corff llywodraethu dros dro yn effeithiol oni bai-

- (a) bod y llywodraethwr neu'r llywodraethwyr dros dro sy'n cynnig y dylid ei ddiswyddo yn datgan yn y cyfarfod hwnnw eu rhesymau dros wneud hynny a bod y llywodraethwr y bwriedir ei ddiswyddo'n cael cyfle i wneud datganiad mewn ymateb, a hynny cyn i'r corff llywodraethu dros dro benderfynu diswyddo'r llywodraethwr dros dro;

**Resignation**

**22.**-(1) Any member of a temporary governing body may resign his or her governorship by giving written notice to the clerk to the temporary governing body of the school.

(2) An *ex officio* temporary foundation governor may resign as a temporary governor either permanently or temporarily but his or her resignation does not prejudice the temporary governorship of his or her successor in the office from which the *ex officio* temporary governorship derives.

(3) The head teacher may withdraw his or her resignation at any time by giving written notice to the clerk to the temporary governing body.

**Removal**

**23.**-(1) Any temporary governor of a new school may be removed from office by the person or persons who appointed him or her.

(2) In the case of the removal from office of a temporary governor mentioned in regulation 24(1), the governing body must follow the procedure set out in that regulation, and in all other cases the person removing the temporary governor from office must give written notice thereof to the clerk to the temporary governing body and to the governor so removed.

**Procedure for removal of temporary governors by the temporary governing body**

**24.**-(1) This regulation applies in relation to the removal from office of:

- (a) a temporary parent governor appointed by the temporary governing body,
- (b) a temporary teacher governor appointed by the temporary governing body, or
- (c) a temporary sponsor governor.

(2) A resolution to remove a temporary governor from office which is passed at a meeting of the temporary governing body does not have effect unless-

- (a) before the temporary governing body resolve to remove the temporary governor from office, the temporary governor or governors proposing his or her removal, at that meeting, state their reasons for doing so and the governor whom it is proposed be removed is given an opportunity to make a statement in response;

(b) bod mater diswyddo'r llywodraethwr dros dro wedi'i bennu fel eitem o fusnes ar agenda'r cyfarfod.

(3) Ar ôl i benderfyniad i ddiswyddo llywodraethwr gael ei basio, rhaid i'r corff llywodraethu dros dro roi gwybod mewn ysgrifen i'r person sydd wedi'i ddiswyddo am y rhesymau dros y diswyddo.

### **Cymwysterau ac anghymhwys**

25. Mae Atodlen 5 i'r Rheoliadau Llywodraethu yn gymwys, yn ddarostyngedig i'r addasiadau cyffredinol er mwyn nodi o dan ba amgylchiadau y mae person yn gymwys neu'n anghymwys i ddal swydd neu i barhau i'w dal, neu i gael ei benodi neu ei enwebu fel llywodraethwr dros dro ysgol newydd.

### **Treuliau**

26. Os oes corff llywodraethu dros dro wedi'i gyfansoddi ar gyfer ysgol newydd mae'r awdurdod addysg lleol o dan yr un ddyletswydd i dalu'r treuliau sy'n codi mewn perthynas â'r corff llywodraethu dros dro â phe bai'r cynigion perthnasol wedi'u rhoi ar waith a phe bai'r corff llywodraethu dros dro yn gorff llywodraethu yr ysgol(1).

### **Gwybodaeth esboniadol**

27. Rhaid i'r awdurdod addysg lleol sicrhau bod aelodau corff llywodraethu dros dro ysgol newydd, wrth eu penodi, yn cael (yn ddi-dâl) unrhyw wybodaeth y mae'r awdurdod yn credu bod arnynt ei hangen er mwyn galluogi'r corff llywodraethu dros dro i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.

## **RHAN 6**

Rhedeg Ysgolion Newydd yn Gyffredinol

### **Dehongli Rhan 6 a'i chymhwyso**

28. Yn y Rhan hon, ystyr "ysgol arfaethedig" yw ysgol nad yw wedi agor eto ac y mae corff llywodraethu dros dro ar ei chyfer wedi'i gyfansoddi yn unol â threfniadau o dan adran 34 o Ddeddf 2002.

29. Nid yw'r Rhan hon yn gymwys i unrhyw bwyllgor sydd wedi'i sefydlu gan y corff llywodraethu dros dro i arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â phenodi, cwynion, ymddygiad a disgyblaeth, gallu, atal neu ddiswyddo aelodau unigol o staff yr ysgol.

(1) Gweler Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005, O.S. 2005/2915 (Cy.212).

(b) the matter of the temporary governor's removal from office is specified as an item of business on the agenda for the meeting.

(3) After a resolution to remove a governor from office has been passed, the temporary governing body must inform the person removed from office of the reasons for the removal in writing.

### **Qualifications and disqualifications**

25. Schedule 5 to the Government Regulations applies, subject to the general modifications, for the purpose of setting out the circumstances in which a person is qualified or disqualified for holding or continuing to hold office, or for being appointed or nominated as a temporary governor of a new school.

### **Expenses**

26. Where a temporary governing body is constituted for a new school the local education authority is under the same duty to defray the expenses incurred in relation to the temporary governing body as they would be if the relevant proposals had been implemented and the temporary governing body were the governing body of the school(1).

### **Explanatory information**

27. The local education authority must secure that the members of the temporary governing body of a new school are, on being appointed, provided (free of charge) with such information as the authority consider they require to enable the temporary governing body to discharge its functions effectively.

## **PART 6**

General Conduct of New Schools

### **Interpretation and application of Part 6**

28. In this Part "proposed school" means a school which has not yet opened for which there is a temporary governing body constituted in accordance with arrangements under section 34 of the 2002 Act.

29. This Part does not apply to any committee established by the temporary governing body to exercise functions relating to the appointment, grievance, conduct and discipline, capacity, suspension or dismissal of individual members of the school staff.

(1) See the Education (Governor Allowances) (Wales) Regulations 2005, S.I. 2005/2915 (W.212).

## Rhedeg yr ysgol cyn dyddiad agor yr ysgol

**30.**-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae adran 61 o Ddeddf 1998 ac adrannau 27 a 28 o Ddeddf 2002, ac Atodlen 1 iddi yn gymwys mewn perthynas ag ysgol arfaethedig<sup>(1)</sup> gyda'r addasiadau canlynol-

- (a) mae cyfeiriadau at gorff llywodraethu i'w trin fel cyfeiriadau at gorff llywodraethu dros dro;
- (b) mae cyfeiriadau at ysgol a gynhelir i'w trin fel pe baent yn cynnwys cyfeiriad at ysgol a gynhelir arfaethedig;
- (c) mae cyfeiriadau at yr offeryn llywodraethu i'w trin fel cyfeiriadau at yr offeryn llywodraethu p'un a yw wedi dod yn effeithiol neu beidio; ac
- (ch) nid yw adrannau 61(3)(b) a (7) o Ddeddf 1998 a pharagraff 2(2) a (3) o Atodlen 1 i Ddeddf 2002 yn gymwys.

(2) Ni chaiff corff llywodraethu dros dro ysgol arfaethedig nad oes ganddi gyllideb ddirprwyedig arfer unrhyw rai o'r pwerau a nodir ym mharagraff 3 (3)(b) i (f) o Atodlen 1 i Ddeddf 2002 (fel y'i haddaswyd) heb yn gyntaf cael cytundeb ysgrifenedig-

- (a) yr awdurdod addysg lleol yn achos ysgol arfaethedig a fydd yn ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig, ysgol feithrin a gynhelir neu ysgol sefydledig y cafodd y cynigion ar gyfer ei sefydlu eu cyhoeddi gan awdurdod addysg lleol, neu
- (b) yr hyrwyddwyr yn achos ysgol arfaethedig a fydd yn ysgol wirfoddol a gynorthwyr neu ysgol sefydledig y cafodd y cynigion ar gyfer ei sefydlu eu cyhoeddi gan hyrwyddwyr.

## Rhedeg yr ysgol ar neu ar ôl dyddiad agor yr ysgol

**31.**-(1) Yn ystod y cyfnod-

- (a) sy'n dechrau ar ddyddiad agor yr ysgol; a
- (b) sy'n dod i ben gyda'r amser y caiff y corff llywodraethu ei gyfansoddi ar gyfer yr ysgol o dan offeryn llywodraethu,

---

(1) At ddibenion adran 30(3) o'r Ddeddf honno ac adrannau 495 i 498 o Ddeddf 1996, mae adran 34(7) o Ddeddf 2002 yn darparu bod y corff llywodraethu dros dro i gael ei drin fel pe bai'n gorff llywodraethu ar unrhyw adeg cyn dyddiad agor yr ysgol.

## Conduct of the school before the school opening date

**30.**-(1) Subject to paragraph (2), section 61 of the 1998 Act and sections 27 and 28 of, and Schedule 1 to, the 2002 Act apply in relation to a proposed school<sup>(1)</sup> with the following modifications-

- (a) references to a governing body are treated as references to a temporary governing body;
- (b) references to a maintained school are treated as including a reference to a proposed maintained school;
- (c) references to the instrument of government are treated as references to the instrument of government whether or not it has taken effect; and
- (d) section 61(3)(b) and (7) of the 1998 Act and paragraph 2(2) and (3) of Schedule 1 to the 2002 Act do not apply.

(2) The temporary governing body of a proposed school which does not have a delegated budget may not exercise any of the powers set out in paragraph 3 (3)(b) to (f) of Schedule 1 to the 2002 Act (as modified) without the prior agreement in writing of-

- (a) the local education authority in the case of a proposed school which will be a community, voluntary controlled, community special or foundation special school, a maintained nursery school or a foundation school proposals for the establishment of which were published by a local education authority; or
- (b) the promoters in the case of a proposed school which will be a voluntary aided school or a foundation school, proposals for the establishment of which were published by promoters.

## Conduct of the school on or after the school opening date

**31.**-(1) During the period-

- (a) beginning with the school opening date; and
- (b) ending with the time when the governing body are constituted for the school under an instrument of government,

---

(1) Section 34(7) of the 2002 Act provides that for the purposes of section 30(3) of that Act and sections 495 to 498 of the 1996 Act, the temporary governing body is to be treated as if it was the governing body at any time before the school opening date.

mae Atodlen 1 i Ddeddf 2002 yn gymwys(1) gyda'r addasiadau sydd wedi'u nodi ym mharagraff (2).

(2) Mae'r addasiadau fel a ganlyn-

- (a) yn lle cyfeiriadau at "governing body" rhodder cyfeiriadau at "temporary governing body";
- (b) ym mharagraff 2(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 2002, hepgorer y geiriau "as for the time being set out in the school's instrument of government"; ac
- (c) nid yw paragraff 2(2) a (3) o Atodlen 1 i Ddeddf 2002 yn gymwys.

### **Cyflawni dogfennau gan y corff llywodraethu dros dro**

32.-(1) Dim ond cadeirydd y corff llywodraethu dros dro neu, os nad yw hynny'n rhesymol ymarferol, yr is-gadeirydd, a gaiff wneud a chyflwyno offerynnau ar ran y corff llywodraethu dros dro.

(2) Rhaid i bob dogfen sy'n honni ei bod yn ddogfen wedi'i gwneud neu wedi'i chyflwyno gan neu ar ran y corff llywodraethu dros dro ac sydd i gael ei llofnodi neu ei chyflawni gan gadeirydd neu is-gadeirydd y corff llywodraethu dros dro gael ei derbyn yn dystiolaeth a'i thrin, heb ragor o brawf, fel pe bai wedi'i gwneud felly neu wedi'i chyflwyno felly oni ddangosir i'r gwrthwyneb.

### **Paratoi'r cwricwlwm**

33.-(1) Wrth baratoi i gyflawni ei swyddogaethau o dan Ran 7 o Ddeddf 2002 mewn perthynas â chwricwlwm yr ysgol, rhaid i bennaeth ysgol arfaethedig ymgynghori â'r corff llywodraethu dros dro a'r awdurdod addysg lleol.

(2) Rhaid i unrhyw awdurdod addysg lleol yr ymgynhorwyd ag ef o dan baragraff (1) roi gwybod i'r pennaeth ynglŷn â'r adnoddau y mae'n debyg y byddant ar gael i'r ysgol, a rhaid i'r pennaeth roi sylw i unrhyw wybodaeth a roddir felly.

### **Tymhorau, gwyliau a sesiynau'r ysgol**

34.-(1) Yn achos ysgol arfaethedig a fydd yn ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir-

- (a) rhaid i'r awdurdod addysg lleol benderfynu ar y dyddiadau y mae tymhorau a gwyliau'r ysgol i ddechrau ac i ddod i ben; a

---

(1) O dan adran 34(7) o Ddeddf 2002, mae corff llywodraethu dros dro ysgol i'w drin at ddibenion y Deddfau Addysg fel pe baent yn gorff llywodraethu yn ystod y cyfnod sy'n dechrau ar ddyddiad agor yr ysgol ac sy'n dod i ben gyda'r amser y caiff y corff llywodraethu ei gyfansoddi o dan offeryn llywodraethu; yn ddarostyngedig i adran 34(8), nad yw Atodlen 1 yn gymwys odani i gyrff llywodraethu dros dro oni bai y darperir hynny mewn rheoliadau sydd wedi'u gwneud o dan adran 34(5).

Schedule 1 to the 2002 Act applies(1) with the modifications set out in paragraph (2).

(2) The modifications are as follows-

- (a) for references to "governing body" there are substituted references to "temporary governing body";
- (b) in paragraph 2(1) of Schedule 1 to the 2002 Act, the words "as for the time being set out in the school's instrument of government" are omitted; and
- (c) paragraph 2(2) and (3) of Schedule 1 to the 2002 Act does not apply.

### **Execution of documents by the temporary governing body**

32.-(1) Only the chair of the temporary governing body, or where that is not reasonably practicable the vice-chair, may make and issue instruments on behalf of the temporary governing body.

(2) Every document purporting to be an instrument made or issued by or on behalf of the temporary governing body and to be signed or executed by the chair or vice chair of the temporary governing body must be received in evidence and be treated, without further proof, as being so made or issued unless the contrary is shown.

### **Preparation of the curriculum**

33.-(1) The head teacher of a proposed school must, in preparing to discharge his or her functions under Part 7 of the 2002 Act in relation to the curriculum for the school, consult the temporary governing body and the local education authority.

(2) Any local education authority who have been consulted under paragraph (1) must inform the head teacher of the resources which are likely to be made available to the school, and the head teacher must have regard to any such information given.

### **School terms, holidays and sessions**

34.-(1) In the case of a proposed school which will be a community, voluntary controlled, community special school or maintained nursery school-

- (a) the local education authority must determine the dates when the school terms and holidays are to begin and end; and

---

(1) Under section 34(7) of the 2002 Act, the temporary governing body of a school is to be treated for the purposes of the Education Acts as if it was the governing body during the period beginning with the school opening date and ending with the time the governing body is constituted under an instrument of government; subject to section 34(8) under which Schedule 1 does not apply to temporary governing bodies unless provided for in regulations made under section 34(5).

(b) rhaid i'r corff llywodraethu dros dro benderfynu amserau sesiynau'r ysgol ar ôl ymgynghori â'r awdurdod addysg lleol.

(2) Yn achos ysgol arfaethedig a fydd yn ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig, rhaid i'r corff llywodraethu dros dro benderfynu-

- (a) ar y dyddiadau a'r amserau y mae tymhorau a gwyliau'r ysgol i ddechrau ac i ddod i ben; a
- (b) ar amserau sesiynau'r ysgol.

(3) Yn y rheoliad hwn ystyr "amserau sesiynau'r ysgol" yw'r amserau y mae pob un o sesiynau'r ysgol (neu, os nad oes ond un, y mae sesiwn yr ysgol) i ddechrau ac i ddod i ben ar unrhyw ddiwrnod.

### **Adroddiadau a Gwybodaeth**

**35.**-(1) Rhaid i gorff llywodraethu dros dro ysgol newydd roi i'r awdurdod addysg lleol unrhyw adroddiadau mewn cysylltiad â chyflawni ei swyddogaethau y bydd yr awdurdod yn gofyn amdanynt (naill ai'n rheolaidd neu o dro i dro) at ddibenion arfer unrhyw un o swyddogaethau'r awdurdod.

(2) Rhaid i bennaeth ysgol newydd roi i'r corff llywodraethu dros dro neu'r awdurdod addysg lleol unrhyw adroddiadau mewn cysylltiad â chyflawni ei swyddogaethau y bydd y corff hwnnw neu'r awdurdod yn gofyn amdanynt (naill ai'n rheolaidd neu o dro i dro) at ddibenion arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

(3) Os caiff gofyniad o dan baragraff (2) ei osod ar y pennaeth gan yr awdurdod-

- (a) rhaid i'r awdurdod hysbysu'r corff llywodraethu dros dro ynglŷn â'r gofyniad hwnnw; a
- (b) rhaid i'r pennaeth roi copi i'r corff llywodraethu dros dro o unrhyw adroddiad a wneir ganddo wrth gydymffurfio â'r gofyniad.

### **Ymgynghori ar wariant awdurdod addysg lleol**

**36.** Os nad oes gan yr ysgol arfaethedig gyllideb ddirprwyedig, rhaid i'r awdurdod addysg lleol ymgynghori â'r corff llywodraethu dros dro a'r pennaeth ynghylch gwariant arfaethedig yr awdurdod ar lyfrau, offer a deunyddiau ysgrifennu i'r ysgol.

(b) the temporary governing body must determine the times of the school sessions after consultation with the local education authority.

(2) In the case of a proposed school which will be a foundation, voluntary aided or foundation special school, the temporary governing body must determine-

- (a) the dates and times when the school terms and holidays are to begin and end; and
- (b) the times of the school sessions.

(3) In this regulation "the times of the school sessions" means the times at which each of the school sessions (or, if there is only one, the school session) is to begin and end on any day.

### **Reports and Information**

**35.**-(1) The temporary governing body of a new school must provide the local education authority with such reports in connection with the discharge of its functions as the authority may require (either on a regular basis or from time to time) for the purposes of the exercise of any of the authority's functions.

(2) The head teacher of a new school must provide the temporary governing body or the local education authority with such reports in connection with the discharge of his or her functions as that body or the authority may require (either on a regular basis or from time to time) for the purposes of the exercise of any of their functions.

(3) Where a requirement under paragraph (2) is imposed on the head teacher by the authority-

- (a) the authority must notify the temporary governing body of that requirement; and
- (b) the head teacher must give the temporary governing body a copy of any report made by him or her in complying with it.

### **Consultation on expenditure by a local education authority**

**36.** Where the proposed school does not have a delegated budget, the local education authority must consult the temporary governing body and the head teacher on the authority's proposed expenditure on books, equipment and stationary for the school.

Swyddogion, cyfarfodydd, trafodion, pwyllgorau a gwrthdrawiadau buddiannau

### **Penodi swyddogion, eu swyddogaethau a'u diswyddo**

37. Mae Rhan 7 o'r Rheoliadau Llywodraethu yn gymwys i ysgolion newydd yn ddarostyngedig i'r addasiadau cyffredinol a rheoliadau 38 a 39.

38.-(1) Yr awdurdod addysg lleol sydd i benodi clerc cyntaf corff llywodraethu dros dro ysgol newydd a fydd yn ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, neu ysgol arbennig gymunedol, neu ysgol sefydledig neu ysgol arbennig sefydledig y cafodd y cynigion i'w sefydlu eu cyhoeddi gan yr awdurdod addysg lleol.

(2) Hyrwyddwyr yr ysgol sydd i benodi clerc cyntaf corff llywodraethu dros dro ysgol newydd a fydd yn ysgol wirfoddol a gynorthwyr neu'n ysgol sefydledig neu'n ysgol arbennig sefydledig y cafodd y cynigion i'w sefydlu eu cyhoeddi gan hyrwyddwyr.

39.-(1) Y clerc sydd i alw cyfarfod cyntaf corff llywodraethu dros dro.

(2) Rhaid i'r corff llywodraethu dros dro ethol cadeirydd ac is-gadeirydd yn y cyfarfod cyntaf hwnnw.

(3) Os yw'r clerc yn methu â galw cyfarfod o fewn unrhyw gyfnod sy'n rhesymol ym marn yr awdurdod addysg lleol, rhaid i'r awdurdod addysg lleol ei alw.

### **Cyfarfodydd a thrafodion cyrff llywodraethu dros dro**

40.-(1) Mae Rhan 8 o'r Rheoliadau Llywodraethu yn gymwys i ysgolion newydd yn ddarostyngedig i'r addasiadau cyffredinol ac i baragraff (2).

(2) Os yw dwy neu fwy o ysgolion i'w cau ("yr ysgolion sydd i'w cau") a disgwylir y bydd y disgyblion cofrestredig yn yr ysgolion hynny, neu nifer sylweddol ohonynt, yn trosglwyddo i ysgol newydd, mae gan benaethiaid yr ysgolion hynny sydd i'w cau yr hawl i fynychu unrhyw gyfarfod corff llywodraethu dros dro'r ysgol newydd hyd nes y penodir pennaeth newydd ar gyfer yr ysgol honno.

### **Pwyllgorau cyrff llywodraethu dros dro**

41.-(1) Mae Rhan 9 o'r Rheoliadau Llywodraethu yn gymwys i ysgolion newydd yn ddarostyngedig i'r addasiadau cyffredinol ac i baragraff (2).

(2) Os yw dwy neu fwy o ysgolion i'w cau ("yr ysgolion sydd i'w cau") a disgwylir y bydd y disgyblion cofrestredig yn yr ysgolion hynny, neu nifer sylweddol ohonynt, yn trosglwyddo i ysgol newydd, mae gan benaethiaid yr ysgolion hynny sydd i'w cau yr

Officers, meetings, proceedings, committees and conflicts of interest

### **Appointment, functions and removal of officers**

37. Part 7 of the Government Regulations applies to new schools subject to the general modifications and regulations 38 and 39.

38.-(1) The first clerk to the temporary governing body of a new school which will be a community, voluntary controlled, or community special school, or a foundation or foundation special school proposals for the establishment of which were published by the local education authority, is to be appointed by the local education authority.

(2) The promoters of the school are to appoint the first clerk to the temporary governing body of a new school which will be a voluntary aided or foundation school or a foundation special school proposals for the establishment of which were published by promoters.

39.-(1) The first meeting of a temporary governing body is to be called by the clerk.

(2) The temporary governing body must elect a chair and vice-chair at that first meeting.

(3) Where the clerk fails to call a meeting within such period as the local education authority consider reasonable, the local education authority must call it.

### **Meetings and proceedings of temporary governing bodies**

40.-(1) Part 8 of the Government Regulations applies to new schools subject to the general modifications and paragraph (2).

(2) Where two or more schools are to be discontinued ("the discontinued schools") and the registered pupils at those schools, or a substantial number of those pupils are expected to transfer to a new school, the head teachers of the discontinued schools are entitled to attend any meeting of the temporary governing body of the new school until a head teacher is appointed for that new school.

### **Committees of temporary governing bodies**

41.-(1) Part 9 of the Government Regulations applies to new schools subject to the general modifications and paragraph (2).

(2) Where two or more schools are to be discontinued ("the discontinued schools") and the registered pupils at those schools, or a substantial number of those pupils are expected to transfer to a new school, the head teachers of the discontinued

hawl i fynychu unrhyw gyfarfod o bwyllgor i gorff llywodraethu dros dro'r ysgol newydd hyd nes y penodir pennaeth newydd ar gyfer yr ysgol honno.

### **Cyfyngiadau ar bersonau sy'n cymryd rhan mewn trafodion**

42. Mae Rhan 10 o'r Rheoliadau Llywodraethu yn gymwys i ysgolion newydd yn ddarostyngedig i'r addasiadau cyffredinol.

## **RHAN 8**

Trosi o Gorff Llywodraethu Dros Dro i Gorff Llywodraethu

### **Gwneud offeryn llywodraethu a chyfansoddiad y corff llywodraethu**

43.-(1) Rhaid i'r awdurdod addysg lleol sicrhau bod offeryn llywodraethu wedi'i wneud ar gyfer pob ysgol newydd yn unol â rheoliadau 32 i 34 o'r Rheoliadau Llywodraethu cyn dyddiad agor yr ysgol.

(2) Bydd yr offeryn llywodraethu yn effeithiol o'r dyddiad y mae'n cael ei wneud er mwyn cyfansoddi'r corff llywodraethu ond nid yw'n effeithio ar gyfansoddiad neu enw'r corff llywodraethu dros dro sy'n rhedeg yr ysgol newydd.

(3) At ddibenion y Rhan hon, mewn perthynas ag unrhyw ysgol newydd, y dyddiad ymgorffori yw'r dyddiad y mae'r awdurdod lleol yn hysbysu'r corff llywodraethu'n ysgrifenedig, a rhaid iddo fod yn ddyddiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dyddiad agor yr ysgol ond pa fodd bynnag heb fod yn hwyrach na diwrnod olaf y tymor y mae'r ysgol yn derbyn disgyblion am y tro cyntaf ynddo.

(4) Rhaid i'r awdurdod addysg lleol sicrhau bod penodiadau neu etholiadau llywodraethwyr sy'n ofynnol o dan offeryn llywodraethu ysgol newydd yn cael eu cynnal yn unol â'r offeryn hwnnw cyn y dyddiad ymgorffori a'u bod yn effeithiol o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

(5) At bob diben arall, bydd yr offeryn llywodraethu yn effeithiol o'r dyddiad ymgorffori.

(6) Ar y dyddiad ymgorffori, rhaid i gorff llywodraethu ysgol newydd fod wedi'i gyfansoddi o dan yr offeryn llywodraethu.

(7) Rhaid i'r corff llywodraethu dros dro arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf 1998, Deddf 2002 a'r Rheoliadau hyn mewn modd y bwriedir iddo alluogi'r awdurdod addysg lleol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y rheoliad hwn.

schools are entitled to attend any meeting of a committee of the temporary governing body of the new school until a head teacher is appointed for that new school.

### **Restrictions on persons taking part in proceedings**

42. Part 10 of the Government Regulations applies to new schools subject to the general modifications.

## **PART 8**

Transition from a Temporary Governing Body to a Governing Body

### **Making of instrument of government and constitution of the governing body**

43.-(1) The local education authority must secure that an instrument of government has been made for each new school in accordance with regulations 32 to 34 of the Government Regulations before the school opening date.

(2) The instrument of government takes effect from the date of making for the purpose of constituting the governing body but does not affect the constitution or name of the temporary governing body conducting the new school.

(3) For the purposes of this Part, in relation to any new school, the incorporation date is the date the local education authority notifies in writing to the governing body which must be a date as soon as reasonably practicable after the school opening date but in any event no later than the last day of the term in which the school first admits pupils.

(4) The local education authority must secure that appointments or elections of governors required by the instrument of government for a new school take place in accordance with that instrument before the incorporation date and take effect from that date.

(5) For all other purposes, the instrument of government takes effect from the incorporation date.

(6) On the incorporation date the governing body of a new school must be constituted under the instrument of government.

(7) The temporary governing body must exercise its functions under the 1998 Act, the 2002 Act and under these Regulations in a manner calculated to enable the local education authority to fulfil its duties under this regulation.



## Llywodraethwyr newydd

44.-(1) Yn achos penodiad unrhyw lywodraethwr y cyfeirir ato yn rheoliad 43(4), rhaid i'r awdurdod addysg lleol roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person sydd i wneud y penodiad o dan yr offeryn llywodraethu, oni bai bod y person hwnnw eisoes wedi hysbysu'r awdurdod addysg lleol ynglyn â phenodiad i lenwi'r swydd wag.

(2) Os bydd unrhyw berson yn gwneud penodiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1), rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig ynglŷn â'r penodiad i'r awdurdod addysg lleol ac i glerc y corff llywodraethu dros dro, gan bennu enw a phreswylfa arferol y person sydd wedi'i benodi.

## Penodi llywodraethwyr newydd neu eu hethol

45.-(1) Mae'r paragraffau canlynol yn gymwys mewn perthynas â phenodi neu ethol y llywodraethwyr y mae eu hangen i gyfansoddi'r corff llywodraethu yn unol â rheoliad 43(4).

- (2) Rhaid i unrhyw riant-lywodraethwr gael naill ai-
- (a) ei ethol (ar ôl dyddiad agor yr ysgol) gan rieni'r disgyblion cofrestredig yn yr ysgol newydd a rhaid iddo yntau fod yn rhiant o'r fath ar yr adeg y caiff ei ethol; neu
  - (b) ei benodi (ar ôl dyddiad agor yr ysgol) yn unol ag Atodlen 1 i'r Rheoliadau Llywodraethu.

(3) Ar ôl dyddiad agor yr ysgol-

- (a) rhaid i unrhyw staff-lywodraethwr neu athro-lywodraethwr gael ei ethol yn unol â rheoliadau 5 a 6 o'r Rheoliadau Llywodraethu ac Atodlen 2 iddynt;
- (b) rhaid i unrhyw lywodraethwr partneriaeth fod yn berson sydd wedi'i enwebu ac wedi'i benodi yn unol â rheoliad 10 o'r Rheoliadau Llywodraethu ac Atodlen 3 iddynt
- (c) rhaid i unrhyw lywodraethwr cymunedol neu lywodraethwr cymunedol ychwanegol gael ei ethol yn unol â rheoliadau 8 a 20 o'r Rheoliadau Llywodraethu.

(4) Os-

- (a) yw offeryn llywodraethu ysgol newydd yn darparu ar gyfer penodi un neu ragor o'r llywodraethwyr gan bersonau sy'n gweithredu ar y cyd, a
- (b) os yw'r personau hynny'n methu â chytuno ar benodiad,

rhaid i'r penodiad gael ei wneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'n unol â chyfarwyddyd a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol hwnnw.

## New governors

44.-(1) In the case of the appointment of any governor referred to in regulation 43(4), the local education authority must give written notice to the person who is to make the appointment under the instrument of government, unless that person has already notified it of an appointment to fill the vacancy.

(2) Where any person makes an appointment referred to in paragraph (1), he or she must give written notice of the appointment to the local education authority and to the clerk to the temporary governing body, specifying the name and usual place of residence of the person appointed.

## Appointment or election of new governors

45.-(1) The following paragraphs apply in relation to the appointment or election of governors required to constitute the governing body pursuant to regulation 43(4).

(2) Any parent governor must be either-

- (a) elected (after the school opening date) by the parents of registered pupils at the new school and must himself or herself be such a parent at the time when he or she is elected; or
- (b) appointed (after the school opening date) in accordance with Schedule 1 to the Government Regulations.

(3) After the school opening date-

- (a) any staff or teacher governor must be elected in accordance with regulations 5 and 6 of and Schedule 2 to the Government Regulations;
- (b) any partnership governor must be nominated and appointed in accordance with regulation 10 of and Schedule 3 to the Government Regulations
- (c) any community governor or additional community governor must be appointed in accordance with regulations 8 and 20 of the Government Regulations.

(4) If-

- (a) the instrument of government of a new school provides for one or more of the governors to be appointed by persons acting jointly, and
- (b) those persons fail to make an agreed appointment,

the appointment must be made by, or in accordance with a direction given by, the National Assembly for Wales.

## **Eiddo, hawliau a rhwymedigaethau**

46. Ar y dyddiad ymgorffori, yn rhinwedd y rheoliad hwn, trosglwyddir-

- (a) yr holl dir ac eiddo arall a oedd, yn union cyn y dyddiad ymgorffori, wedi'i freinio yn y corff llywodraethu dros dro, a
- (b) holl hawliau a rhwymedigaethau'r corff llywodraethu dros dro a oedd yn bodoli yn union cyn y dyddiad hwnnw,

i'r corff llywodraethu sydd wedi'i gyfansoddi o dan yr offeryn llywodraethu, a'u breinio ynddo.

## **Hawliau a rhwymedigaethau o dan contract cyflogaeth**

47. Heb ragfarnu cyffredinolrwydd rheoliad 46, os yw'r rheoliad hwnnw'n peri bod hawliau a rhwymedigaethau yn cael eu trosglwyddo o dan contract cyflogaeth-

- (a) bydd y contract yn effeithiol o'r dyddiad ymgorffori fel pe bai wedi'i wneud yn wreiddiol rhwng y cyflogai a'r corff llywodraethu sydd wedi'i gyfansoddi o dan yr offeryn llywodraethu, a
- (b) heb ragfarnu paragraff (a), bernir o'r dyddiad hwnnw ymlaen fod unrhyw beth a wnaed cyn y dyddiad hwnnw gan neu mewn perthynas â'r corff llywodraethu dros dro mewn perthynas â'r contract hwnnw neu'r cyflogai wedi'i wneud gan neu mewn perthynas â'r corff llywodraethu sydd wedi'i gyfansoddi o dan yr offeryn llywodraethu,

ond ni fydd unrhyw hawl i'r cyflogai derfynu ei contract cyflogaeth os caiff newid sylweddol ei wneud ar ei draul yn ei amodau gwaith yn codi dim ond oherwydd y newid cyflogwr sydd wedi'i beri gan y rheoliad hwnnw.

## **Gwybodaeth ar gyfer olynwyr**

48.-(1) Yn union cyn y dyddiad ymgorffori, rhaid i'r corff llywodraethu dros dro baratoi, at ddiben cynorthwyo'r corff llywodraethu a fydd yn ei ddilyn, adroddiad byr ynglŷn â'r camau y mae wedi eu cymryd wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â'r ysgol newydd.

(2) Rhaid i holl gofnodion a phapurau corff llywodraethu dros dro mewn perthynas â'r ysgol newydd, gan gynnwys yr adroddiad a baratowyd o dan baragraff (1), fod ar gael i'w olynwyr.

## **Property, rights and liabilities**

46. On the incorporation date-

- (a) all land and other property which, immediately before the incorporation date, was vested in the temporary governing body, and
- (b) all rights and liabilities of the temporary governing body subsisting immediately before that date,

are, by virtue of this regulation, transferred to and vest in the governing body constituted under the instrument of government.

## **Rights and liabilities under a contract of employment**

47. Without prejudice to the generality of regulation 46, where that regulation effects a transfer of rights and liabilities under a contract of employment-

- (a) the contract has effect from the incorporation date as if originally made between the employee and the governing body constituted under the instrument of government, and
- (b) without prejudice to paragraph (a), anything done before that date by or in relation to the temporary governing body in respect of that contract or the employee is deemed from that date to have been done by or in relation to the governing body constituted under the instrument of government,

but no right of the employee to terminate his or her contract of employment if a substantial change is made to his or her detriment in his or her working conditions arises by reason only of the change of employer effected by that regulation.

## **Information for successors**

48.-(1) Immediately before the incorporation date, the temporary governing body must prepare, for the purpose of assisting the governing body who will succeed it, a brief report of the action which it has taken in the discharge of its functions relating to the new school.

(2) All minutes and papers of a temporary governing body relating to the new school, including the report prepared under paragraph (1), must be made available to its successors.

## RHAN 9

Diwygio Rheoliadau Cymeriad Crefyddol Ysgolion  
(Gweithdrefn Ddynodi) 1998

### **Diwygio Rheoliadau Cymeriad Crefyddol Ysgolion (Gweithdrefn Ddynodi) 1998**

**49.**-(1) Diwygir rheoliad 9 o Reoliadau Cymeriad Crefyddol Ysgolion (Gweithdrefn Dynodi) 1998 mewn perthynas â Chymru fel a nodir ym mharagraffau (2) a (3).

(2) Ym mharagraff (2) o reoliad 9, o flaen y geiriau "Church of England", mewnosodir y geiriau "new school which is intended to be a".

(3) Ym mharagraff (6)(a) o reoliad 9, yn lle "(within the meaning of Part III of the Education (New Schools) (Wales) Regulations 1999 or the 1996 Act, as the case may be)" rhodder "within the meaning of Part 3 of the New Maintained Schools (Wales) Regulations 2005".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

18 Hydref 2005

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

## PART 9

Amendments to the Religious Character of Schools  
(Designation Procedure) Regulations 1998

### **Amendments to the Religious Character of Schools (Designation Procedure) Regulations 1998**

**49.**-(1) Regulation 9 of the Religious Character of Schools (Designation Procedure) Regulations 1998 is amended in relation to Wales as set out in paragraphs (2) and (3).

(2) In paragraph (2) of regulation 9, insert before "Church of England", the words "new school which is intended to be a".

(3) In paragraph (6)(a) of regulation 9, for "(within the meaning of Part III of the Education (New Schools) (Wales) Regulations 1999 or the 1996 Act, as the case may be)" substitute "within the meaning of Part 3 of the New Maintained Schools (Wales) Regulations 2005".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

18 October 2005

The Presiding Officer of the National Assembly

*D. Elis-Thomas*

---

(1) 1998 p.38.

---

(1) 1998 c.38.

---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2005 Rhif 2912 (Cy.209)**

**ADDYSG, CYMRU**

Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir  
Newydd (Cymru) 2005

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2005 No. 2912 (W.209)**

**EDUCATION, WALES**

The New Maintained Schools  
(Wales) Regulations 2005

©© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£4.50**

W150/10/05

ON